Nid oes rhai hawliau i Denantiaid Rhagarweiniol yng nghytundeb y denantiaeth yn ystod cyfnod y Denantiaeth Ragarweiniol. Caiff y rhain eu hamlygu yn y cytundeb.

Y rhain yw'r cymalau canlynol:

3.2(i) Arfer eu hawl i gyfnewid gyda thenant arall dan Adran 92 Deddf Tai 1985.

3.4 Ar ôl bod yn Denantiaid Sicredig am o leiaf bum mlynedd, gallant fod â'r hawl i brynu'r eiddo oddi wrth y Cyngor. Os dechreuodd tenantiaeth yr eiddo cyn 18fed Ionawr 2005, ar ôl bod yn Denantiaid Sicredig am ddwy flynedd o leiaf, gallant fod â'r hawl i brynu'r eiddo oddi wrth y Cyngor.

Nid yw'r rhain ond yn berthnasol os yw'r denantiaeth yn dod yn denantiaeth sicredig.

Pan ddaw'r denantiaeth yn **Denantiaeth Sicredig** bydd hawliau cyfreithiol llawn Tenantiaid y Cyngor yn berthnasol. Mae hynny'n golygu bod gan denantiaid fwy o sicrwydd, a gallant gadw eu cartref cyhyd ag y byddant eisiau oni bai fod rheswm cyfreithiol pam fod y Cyngor Sir eisiau ei gymryd yn ôl (sy'n cael ei alw'n 'rheswm dros feddu' yn Neddf Tai 1985). Os digwydd hyn, byddai'r Cyngor yn gorfod argyhoeddi Llys bod y tenantiaid wedi torri amodau'r denantiaeth, a'i bod yn rhesymol troi'r tenantiaid allan.

I. HAWLIAU A DYLETSWYDDAU TENANTIAID

Mae hawliau penodol gan 'Denant' yr eiddo. Mae dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol ar 'y Tenant' hefyd. Mae hawliau a dyletswyddau'r 'Tenant' yn cael eu pennu yn y cytundeb hwn. Gall y gyfraith newid ac effeithio arnynt.

AMRYWIOL

- 1.1 Nid oes modd newid telerau'r denantiaeth hon heblaw;
- i) Trwy gytundeb ysgrifenedig rhwng y 'Tenant' a'r Cyngor
 - ii) Trwy i'r Cyngor roi 28 o rybudd i'r 'Tenant' o'i fwriad i amrywio'r denantiaeth
- Mae'r Cyngor yn gorfod ymgynghori â'i denantiaid cyn gwneud unrhyw newidiadau mawr i delerau ac amodau tenantiaeth.

RHYBUDDION

- 1.2 Rhaid i denantiaid sydd am roi rhybuddion a chyfathrebu fel arall â'r Cyngor wneud hynny'n ysgrifenedig, ac anfon neu gyflwyno'r rhybuddion i'r: Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid (Rheolaeth Tai), Gofal Cymdeithasol a Thai, Cyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir, Hwlfordd, Sir Benfro, SA61 1TP.
- 1.3 Mae'r 'Tenant' yn derbyn bod rhybudd ffurfiol perthnasol i'r denantiaeth wedi cael ei gyflwyno'n dda os os bydd y Cyngor wedi'i bostio i'r eiddo, ei ddanfon yno neu ei adael yno, a'i gyfeirio at y tenant.

RHENT

- 1.4 Mae'r 'Tenant' yn cytuno i dalu'r rhent dyledus, gan gynnwys unrhyw daliadau dŵr, carthion a chostau eraill, y mae'r 'Tenant' yn gyfrifol amdanynt, cyhyd ag y bo'r denantiaeth yn parhau. Bydd y swm hwn yn daladwy ar ddydd Llun pob wythnos. Gall unrhyw Ganolfan Gyswilt Cwsmeriaid neu'r Isadrn Gwasanaethau Cyllid roi cyngor ar unrhyw fudd-daliadau tai y gall y 'Tenant' fod â hawl iddynt.
- 1.5 Bydd y Cyngor yn newid faint o rent sy'n daladwy o bryd i'w gilydd. Cyn gwneud hyn rhaid i'r Cyngor roi 28 diwrnod o rybudd ysgrifenedig.
- 1.6 Lle bydd cyd-denantiaeth yn cael ei dal, mae'r ddau denant yn gyfrifol am dalu'r holl rent, ac unrhyw ôl-ddyledion rhent. Gall y Cyngor adennill yr holl rent sy'n ddyledus ar y denantiaeth oddi wrth unrhyw gyd-denant unigol.
- 1.7 Gall y Cyngor godi ar y 'Tenant' am unrhyw wasanaethau newydd, neu wasanaethau ychwanegol sy'n cael eu darparu yn yr eiddo, fel rhan o'r rhent. Bydd y Cyngor yn hysbysu'r 'Tenant' o unrhyw newid trwy roi 28 diwrnod o rybudd ysgrifenedig. Mae taliad am ddŵr a gwaredu carthion yn y rhent presennol. Nid yw'r taliadau hyn yn gynwysedig pan fo mesurydd dŵr yn cael ei osod. Bydd y 'Tenant' yn cael gwybod am wahanol elfennau'r taliadau wythnosol ar y cerdyn rhent.

DYLEDION TENANTIAETH FLAENOROL

- 1.8 Rhaid i'r 'Tenant' ad-dalu unrhyw arian sy'n ddyledus i'r Cyngor o denantiaeth flaenorol fel ôl-ddyledion rhent neu gost trwsio difrod y mae'n atebol i'w talu. Os nad yw'r 'Tenant' yn cadw at gynllun ad-dalu a gytunwyd, bydd y Cyngor yn mynd i'r Llys i droi'r tenant allan.

2. SICRWYDD DEILIADAETH

- 2.1 Mae'r Tenant yn mwynhau'r hyn sy'n cael ei alw'n Sicrwydd Deiliadaeth. Mae hyn yn golygu nad oes modd troi'r Tenant allan o'r eiddo heblaw am resymau arbennig, sy'n cael eu pennu yn y gyfraith ac sydd angen eu profi yn y Llys. Nid oes modd dwyn achos i droi'r 'Tenant' o'r eiddo cyn cyflwyno rhybudd ffurfiol i'r 'Tenant' yn gyntaf yn dweud bod y Cyngor yn bwriadu gofyn am orchymyn i ddadfeddiannu a'r rhesymau pam.
**Nid yw hyn yn berthnasol i Denant Rhagarweiniol. Gwelwch adran 'Tenantiaeth Ragarweiniol', ar ddechrau'r cytundeb hwn.*
- 2.2 Gyda Tenant Sicredig, mewn achosion lle bo unrhyw un sy'n byw yn y denantiaeth yn peri niwsans neu annifyrrwch, gall y Cyngor wneud cais i'r Llys hefyd am Orchymyn Diraddio dan Adran 14 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003, fydd yn gorffen y Denantiaeth Sicredig, ac yn creu Tenantiaeth Ddiraddiol.
**Nid yw hyn yn berthnasol i Denant Rhagarweiniol. Gwelwch adran 'Tenantiaeth Ragarweiniol', ar ddechrau'r cytundeb hwn.*
- 2.3 Nid yw'r 'Tenant' yn mwynhau Sicrwydd Deiliadaeth os nad yw'n byw yn yr eiddo fel yr unig neu brif gartref. Os yw'r 'Tenant' yn bwriadu peidio â byw yn yr eiddo am fwy nag un mis yn olynol, rhaid i'r 'Tenant' hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig. Os na chaiff hyn ei wneud, gall y Cyngor weithredu i ddod â'r denantiaeth i ben.

TERFYNU'R DENANTIAETH

- 2.4 Rhaid i'r 'Tenant' roi 28 diwrnod o rybudd ysgrifenedig i derfynu'r denantiaeth. Yn achos cyd-denantiaeth, bydd rhybudd un cyd-denant yn terfynu cyd-denantiaeth y ddau denant. Ni all un o gyd-denantiaid yr eiddo derfynu buddiant yn y denantiaeth heb ganiatâd y Cyngor.

Rhaid dychwelyd allweddi'r eiddo i'r Cyngor cyn 5.00pm ar y dydd Llun pan ddaw'r denantiaeth i ben. Os caiff yr allweddi eu dychwelyd ar ôl y dyddiad hwn bydd swm cywerth â'r rhent wythnosol am ddefnyddio a byw yn yr eiddo'n cael ei godi ar y 'Tenant'.

Pan gaiff yr allweddi eu dychwelyd i'r Cyngor, rhaid i'r 'Tenant' sicrhau bod yr eiddo'n wag i'r Cyngor. Rhaid i'r 'Tenant' beidio â gadael neb arall yn yr eiddo ar ôl symud allan. Os bydd hyn yn digwydd fe all y Cyngor godi ar y 'Tenant' am ddal i ddefnyddio'r eiddo, ac unrhyw gostau symud pobl sydd ar ôl yn yr eiddo.

- 2.5 Wrth adael yr eiddo:
- i) Dylid gadael yr eiddo (gan gynnwys unrhyw le yn y to) a'r ardd yn glir o sbwriel, dodrefn ac eiddo arall, ac mewn cyflwr glân.
 - ii) Ni ddylid tynnu gosodion a ffitiadau'r Cyngor.
- Gall y 'Tenant' orfod talu am glirio eitemau o'r eiddo, glanhau'r eiddo neu'n ailosod gosodion a ffitiadau a ddifrodwyd, a dynnwyd neu a ddisodlwyd heb ganiatâd ysgrifenedig y Cyngor.
- 2.6 Ar ddiwedd y denantiaeth, mae'r 'Tenant' yn cytuno i ganiatáu i'r Cyngor gael gwared ar unrhyw beth sydd ar ôl yn yr eiddo fel y bydd yn dewis. Os caiff unrhyw eitemau eu gwerthu gall y Cyngor ddefnyddio unrhyw dderbyniadau i leihau unrhyw ddyled sydd ar y 'Tenant' i'r Cyngor, neu gost cadw neu gael gwared ar unrhyw eitemau.
- 2.7 Pan ddaw'r denantiaeth i ben, mae gan y 'Tenant' hawl i ddigolledu am fathau arbennig o welliannau a wnaeth i'r eiddo gyda chaniatâd ysgrifenedig y Cyngor. Mae'r gyfraith yn diffinio'r atgyweiriadau cymwys hyn a chyfraddau digolledu.

3. ASEINIAD OLYNIAETH A HAWLIAU ERAILL

OLYNIAETH AC ASEINIAD

- 3.1 Dan rai amgylchiadau lle bydd Tenant yn marw, gall gŵr neu wraig y 'Tenant', neu aelod cymwys o deulu'r 'Tenant' sydd wedi byw gyda'r 'Tenant' am o leiaf ddeuddeg mis yn arwain at farwolaeth y 'Tenant' 'olynu' i'r denantiaeth. Fodd bynnag, nid yw'r denantiaeth ond yn rhoi hawl gyfreithiol i un olyniaeth. Y gyfraith sy'n diffinio hawl i olynu i'r denantiaeth. Mae'r gyfraith o ran olyniaeth yn gymhleth.

Rhaid hysbysu'r Cyngor bob amser o farwolaeth 'Tenant' a bydd yn rhoi cyngor ar olyniaeth.

- 3.2 Ni all y 'Tenant' aseinio na throsglwyddo'r denantiaeth dan unrhyw amgylchiadau, heblaw gyda chaniatâd ysgrifenedig y Cyngor. Ni fydd hyn yn cael ei roi heblaw dan rai amgylchiadau lle bo'r Cyngor yn ystyried hynny'n briodol. Y rhain yw:
- i) Pan fo'r 'Tenant' yn arfer ei hawl i gyfnewid gyda 'Thenant' arall dan Adran 92 Deddf Tai 1985.
**Nid yw hyn yn berthnasol i Denant Rhagarweiniol. Gwelwch adran 'Tenantiaeth Ragarweiniol', ar ddechrau'r cytundeb hwn*
 - ii) Fel rhan o achos ysgariad pan gaiff Gorchymyn Llys ei wneud dan Adran 24 Deddf Achosion Priodasol 1973, neu Adran 17 Deddf Achosion Priodasol a Theulu 1984, neu pan gaiff Gorchymyn Llys ei wneud dan Atodlen I Deddf Plant 1989.
 - iii) Lle bo'r 'Tenant' yn gofyn cael trosglwyddo'r buddiant i briod neu aelod o'r teulu fyddai wedi bod â hawl i fanteisio ar 'hawliau olyniaeth' ar sail y diffiniad yn Adran 87 ac 88 Deddf Tai 1985 (gwelwch yr adran ar aseinio uchod). Bydd hyn yn amodol ar ddewis y Cyngor.

LLETYWYR AC ISOSOD

- 3.3 Os yw'r 'Tenant' eisiau derbyn lletywr, rhaid i'r 'Tenant' yn gyntaf gael caniatâd ysgrifenedig y Cyngor. Rhaid i'r tenant beidio ag isosod yr eiddo cyfan.

HAWLIAU ERAILL

- 3.4 Ar ôl i'r 'Tenant' fod yn denant sicredig am o leiaf bum mlynedd, gall fod â'r hawl i brynu'r eiddo oddi wrth y Cyngor. Os dechreuodd tenantiaeth yr eiddo cyn 18fed Ionawr 2005, ar ôl i'r 'Tenant' fod yn 'Denant' sicredig am ddwy flynedd o leiaf, gall fod â'r hawl i brynu'r eiddo oddi wrth y Cyngor.

**Nid yw hyn yn berthnasol i Denant Rhagarweiniol. Gwelwch adran 'Tenantiaeth Ragarweiniol', ar ddechrau'r cytundeb hwn*

- 3.5 Mae gan y 'Tenant' hawl i gael gwybodaeth oddi wrth y Cyngor ynghylch sut y caiff tai'r cyngor eu neilltuo.

4. AMODAU TENANTIAETH: GWAITH TRWSIO

4.1 Mae'r Cyngor

- i) yn cytuno i drwsio a chynnal adeiledd a thu allan yr eiddo. Mae hyn yn cynnwys draeniau, cwteri, pibelli allanol, a'r prif lwybrau troed i'r drysau blaen a chefn.
- ii) yn cytuno i drwsio a chynnal y gosodiadau yn yr eiddo ar gyfer cyflenwi dŵr, nwy, a thrydan (ac eithrio mesuryddion y gwasanaethau) a charthffosiaeth, gan gynnwys dysglau, sinciau, baddonau, a thai bach, unig os mai'r Cyngor osododd y rhain, neu os oeddent yn yr eiddo pan symudodd y 'Tenant' i'r eiddo.
- iii) yn cytuno i drwsio a chynnal y systemau gwresogi a thwymo dŵr sy'n osodion safonol i'r eiddo, neu'r eitemau hynny y mae'r Cyngor wedi cytuno i'w mabwysiadu.
- iv) ni fydd ond yn cynnal gosodion a ffitiadau safonol yn yr eiddo ar yr adeg y cafodd ei osod i'r 'Tenant', neu a osodwyd fel rhan o welliannau'r Cyngor i'r eiddo.

Os caiff hawl i brynu ei gyflwyno, bydd y math o waith trwsio y bydd y Cyngor yn ei wneud yn cael ei gyfyngu i waith brys i sicrhau iechyd a diogelwch yn yr eiddo.

- 4.2 Mae'r Cyngor yn cytuno i wneud gwaith trwsio o fewn cyfnod rhesymol, a bydd yn ceisio cydymffurfio â safonau gwasanaeth penodol.

- 4.3 Mae'r Cyngor yn cytuno i lanhau ar ôl cwblhau gwaith trwsio.

- 4.4 Mae gan y 'Tenant' hawl gyfreithiol i waith trwsio, ac efallai y gall gael iawndal os nad yw gwaith trwsio cymwys yn cael ei wneud yn brydlon.

GWAITH TRWSIO: YMRWYMIAD Y TENANT

- 4.5 Mae'r 'Tenant' yn cytuno i hysbysu'r Cyngor yn brydlon o unrhyw waith trwsio y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdano.
- 4.6 Rhaid i'r 'Tenant' adael i'r Cyngor a'i bobl awdurdodedig fynd i mewn i'r eiddo ar unrhyw adeg resymol at ddibenion gwneud gwaith trwsio neu welliannau neu i archwilio'r eiddo ac adeiladau. Pan fo angen, bydd y Cyngor yn rhoi 24 AWR I RYBUDD YSGRIFENEDIG i'r 'Tenant' o'i fwriad i fynd i mewn i'r eiddo ac adeiladau HEBLAW MEWN ARGYFWNG. Mewn argyfwng mae gan y Cyngor hawl i dorri i'r eiddo. Os yw'n angenrheidiol i'r Cyngor ddwyn achos cyfreithiol er mwyn mynd i mewn i'r eiddo bydd cost y gweithrediadau hyn ac unrhyw newidiadau cloeon angenrheidiol yn cael ei godi ar y 'Tenant', a gall y 'Tenant' gael ei erlyn am rwystro.
- 4.7 Mae'r 'Tenant' yn gyfrifol am waith trwsio fel: plygiau i sinciau, baddonau a dysglau; rhwystrau mewn pibelli a thrapiau mewnol; seddau a chaeadau toiled, llacio drysau mewnol, darparu rheiliau llenni, bylbiau golau neu diwbiau fflworolau; newid ffiwsiau; cysgodlenni; silffoedd; colynnau; bachau; teils mur a llawr, leiniau dillad neu sychwyr tro, ffensys rhwng gerddi (heblaw i nodi'r terfyn rhwng anheddau); llwybrau gardd a chytiau gardd.
NID YW'R RHESTR UCHOD YN CYNNWYS POPETH
- 4.8 Cyfrifoldeb y 'Tenant' yw holl wydro. Os caiff unrhyw wydr ei dorri, hyd yn oed os yw trwy ddamwain, cyfrifoldeb y 'Tenant' yw cael ei drwsio. Ni fydd y Cyngor yn trwsio gwyrdd heblaw pan achoswyd y difrod trwy weithgaredd troseddol, yr hysbyswyd y mater i'r Heddlu ac y cafwyd cyfeirnod trosedd.
- 4.9 Cyfrifoldeb y 'Tenant' yw cloeon ac allweddi, oni bai fod y Cyngor yn cytuno i ailosod y rhain oherwydd traul deg. Ni fydd y Cyngor yn ailosod cloeon heblaw pan achoswyd y difrod trwy weithgaredd troseddol, yr hysbyswyd y mater i'r Heddlu ac y cafwyd cyfeirnod trosedd.
- 4.10 Os yw'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau dan y cytundeb tenantiaeth hwn, nid yw'r Cyngor yn gyfrifol am ddifrod i addurniadau nac eiddo personol tenantiaid os ydynt yn cael eu difrodi mewn damwain, fel tân neu lif yn yr eiddo. Y cyngor cryf i chi yw yswirio cynnwys eich cartref i ddiogelu eich eiddo.
- 4.11 NID yw'r Cyngor yn gorfod trwsio unrhyw eitemau sy'n mynd yn ddiffygiol o ganlyniad i esgeulustod neu gamddefnyddio gan y 'Tenant' (neu rywun sy'n byw gyda'r 'Tenant' neu sy'n ymweld â'r eiddo). Os yw'n cael ei ystyried yn angenrheidiol, neu fod y 'Tenant' yn gofyn i'r Cyngor gwneud y gwaith, bydd hynny ar draul y 'Tenant', a bydd y Cyngor yn disgwyl taliad ymlaen llaw.

GOFALU AM YR EIDDO: NEWIDIADAU A GWELLIANNAU

- 4.12 Rhaid i'r 'Tenant' beidio â gwneud unrhyw welliant, addasiad na gwaith adeiladu arall yn yr eiddo heb yn gyntaf gael caniatâd ysgrifenedig y Cyngor; mae hyn yn cynnwys:
- tynnu muriau neu ddrysau
 - unrhyw newid sy'n effeithio ar yr offer gwresogi yn yr eiddo,
 - codi unrhyw erial, soser lloeren neu unrhyw wifren neu osodyn arall ynghlwm wrth gorff yr adeilad,
 - cyfnewid neu osod ffensys neu glwydi,
 - codi unrhyw gwt, tŷ gwydr neu golomendy, modurdy nac adeiledd arall ar diroedd yr eiddo,
 - gosod mesurydd dŵr.

NID YW'R RHESTR UCHOD YN CYNNWYS POPETH

Efallai y bydd angen i'r 'Tenant' gael Ganiatâd Rheoliadau Adeiladu neu Gynllunio am fathau arbennig o waith, a chyfrifoldeb y 'Tenant' fydd hynny.

Gall y Cyngor gytuno i gynnal offer nwy arbennig a osodwyd gyda'r caniatâd gofynnol.

Pan ddaw'r denantiaeth i ben, gall y 'Tenant' fod â'r hawl i ddigollediad am fathau arbennig o welliannau. Gweld y Cymal uchod.

- 4.13 Ni fydd y Cyngor yn gwrthod caniatáu newidiadau oni bai fod rheswm da.
- 4.14 Os bydd y 'Tenant' yn gwneud gwelliannau neu newidiadau i'r eiddo heb gytundeb ysgrifenedig y Cyngor neu heb gael caniatâd angenrheidiol arall, gall y Cyngor ofyn i'r 'Tenant' ddychwelyd yr eiddo i'r hyn oedd o'r blaen. Os na chaiff hyn ei wneud, a bod y Cyngor yn ystyried ei bod yn angenrheidiol gwneud y gwaith hwn, bydd y 'Tenant' yn gorfod talu cost lawn y gwaith, ac efallai y bydd achos i ddod â'r denantiaeth i ben.
- 4.15 Y 'Tenant' sy'n gyfrifol am gynnal ei neu ei offer ei hun nad ydynt yn osodion fel poptai, neu beiriannau golchi, ac mae'n gyfrifol am unrhyw bibelli neu geblau sy'n cysylltu'r rhain â'r cyflenwadau nwy, trydan neu ddŵr.
- 4.16 Gall rhai eiddo gael eu gosod gyda gosodion ansafonol, fel cytiau gardd, ac efallai y bydd gofyn i'r 'Tenant' lofnodi cytundeb ar wahân ynghylch cynnal eitemau o'r fath.

GOFALU AM YR EIDDO: ADDURNIADAU, GERDDI A GLANWEITHDRA

- 4.17 Rhaid i'r 'Tenant' gadw tu mewn yr eiddo'n lân a glanwaith, i foddhad y Cyngor.
- 4.18 Y 'Tenant' sy'n gyfrifol am addurno mewnol yr eiddo a'i gadw mewn cyflwr rhesymol o ran ailaddurno, fel y bydd y Cyngor yn penderfynu.

- 4.19 Os, ym marn Isadran Diogelu'r Cyhoedd y Cyngor, yw'r eiddo angen ei lanhau, oherwydd ei fod yn afiach, ac nad yw'r 'Tenant' yn gwneud y gwaith sydd ei angen o fewn yr amserlen a bennwyd gan y Cyngor, gall y Cyngor wneud y gwaith hwn, a bydd y Cyngor yn codi'r gost lawn ar y 'Tenant'.
- 4.20 Y 'Tenant' sy'n gyfrifol am gadw'r ardd yn daclus. Rhaid torri'r gwair yn rheolaidd; cadw uchder unrhyw wrychoedd neu goed yn rhesymol; peidio â gadael iddynt grogi dros eiddo cyfagos nac ardaloedd cymunedol, na difrodi muriau'r eiddo. Rhaid i'r 'Tenant' beidio â chaniatáu tynnu unrhyw goed na gwrychoedd sy'n ffurfio rhan o derfyn yr eiddo heb ganiatâd ysgrifenedig y Cyngor ymlaen llaw. Rhaid i'r 'Tenant' beidio â newid llwybrau na grisiau presennol at y drws blaen neu gefn heb ganiatâd ysgrifenedig y Cyngor. Rhaid cadw'r ardd yn glir o sbwriel, sgrap neu ddeunydd gwastraff arall neu eitemau afiach.
- 4.21 Os yw'r ardd y mae'r 'Tenant' yn gyfrifol amdani angen ei chynnal, ei thorri neu glirio sbwriel ohoni, ym marn y Cyngor, a'r 'Tenant' heb wneud y gwaith sydd ei angen o fewn cyfnod rhesymol a bennwyd gan y Cyngor, mae gan y Cyngor hawl i wneud y gwaith a chodi cost lawn y gwaith hwn ar y 'Tenant'.
- 4.22 Rhaid i'r 'Tenant' beidio â chadw na defnyddio unrhyw swm o ddeunydd fflamadwy, na nwy potel yn yr annedd, heblaw os yw ar gadw mewn cynhwysydd diogel. Rhaid peidio â chadw'r deunyddiau hyn mewn ardaloedd cymunedol.
- 4.23 Lle bo trigolion eraill yn rhannu ardaloedd cymunedol, rhaid i'r 'Tenant' sicrhau:
- i) cadw rhannau cyffredin yr adeilad mewn cyflwr glân a thaclus ac yn rhydd o ysbwriel a gwastraff.
 - ii) cadw llwybrau a ffyrdd mynediad eraill yn glir ac yn rhydd o rwystrau.

5. PARCIO CEIR NEU GERBYDAU ERAILL

- 5.1 Rhaid i'r 'Tenant' beidio â chaniatáu parcio unrhyw gerbyd o fewn terfyn yr eiddo (e.e. tramwyfa neu ardd) lle nad oes:
- i) cwrbyn isel, a
 - ii) mynediad gerbydau a adeiladwyd yn briodol, gyda thrwydded y Cyngor i groesi'r palmant, a
 - iii) llain galed a adeiladwyd i fanyleb y Cyngor.

Rhaid cael caniatâd ysgrifenedig cyn gwneud gwaith o'r fath.

- 5.2 Rhaid i unrhyw gerbyd a barciwyd o fewn terfyn eiddo fod mewn cyflwr addas i'r ffordd fawr, wedi'i drethu neu fod â Hysbysiad Statudol Oddi ar y Ffordd (SORN) a gyhoeddwyd gan y DVLA ynghlwm wrtho.
- 5.3 Rhaid i'r 'Tenant' beidio â chaniatáu parcio unrhyw garafán neu gwch o fewn terfyn yr eiddo heb ganiatâd ysgrifenedig y Cyngor. Rhaid peidio â defnyddio unrhyw garafán fel preswylfa barhaol, ran-amser neu dros dro.
- 5.4 Rhaid i'r 'Tenant', aelodau'r cartref neu ymwelwyr beidio â pharcio cerbydau ar leiniau gwair, llwybrau troed nac ardaloedd cerdded cyffredin yn neu o gwmpas yr eiddo.

- 5.5 Rhaid i'r 'Tenant', aelodau'r cartref neu ymwelwyr beidio â pharcio cerbydau anghyfreithlon neu anaddas i'r ffordd fawr ar y tir o gwmpas yr eiddo, ar safiadau caled cyffredin neu mewn cilfachau parcio. Os yw'r Cyngor yn gorfod symud neu gael gwared ar gerbydau o'r fath, bydd cost y symud neu waredu'n cael ei godi ar y perchenogion cofrestredig.
- 5.6 Rhaid i'r 'Tenant', aelodau'r cartref neu ymwelwyr beidio â pharcio unrhyw garafán, cwch neu ôl-gerbyd ar lain galed gyffredin neu lain barcio neu dir arall ym meddiant y Cyngor yng nghyffiniau'r eiddo heb ganiatâd ysgrifenedig y Cyngor.
- 5.7 Rhaid i'r 'Tenant', aelodau'r cartref neu ymwelwyr beidio â pharcio cerbydau o fwy na 3.5 tonnelli pwysau crynswth ar unrhyw lain barcio gyffredin, llain galed neu dramwyfa yng nghyffiniau'r eiddo heb ganiatâd ysgrifenedig y Cyngor.
- 5.8 Rhaid i'r 'Tenant', aelodau'r cartref neu ymwelwyr beidio â gwneud gwaith trwsio sylweddol ar gerbydau o fewn terfyn yr eiddo neu ar lain galed gyffredin, lleiniau parcio neu dir arall y Cyngor. Mae gwaith trwsio sylweddol ar gerbydau yn eu gadael mewn cyflwr anaddas i'r ffordd fawr dros nos neu am gyfnodau hwy. Rhaid i'r 'Tenant', aelodau'r cartref neu ymwelwyr beidio â gwneud gweithgareddau sy'n achosi perygl i iechyd a diogelwch neu all beri halogiad amgylcheddol.

6. YMDDYGIAD POBL YN EICH CARTREF

CYFRIFOLDEBAU CYMUNEDOL

Mae gan bawb hawl i fyw fel y maent eisiau, ond iddynt beidio ag ymyrryd â phobl sy'n byw gerllaw iddynt, neu dorri'r gyfraith. Yn y rhan fwyaf o achosion byddai disgwyl i bobl ddatrys eu problemau eu hunain yn heddychlon ond, os bydd hyn yn methu, bydd y Cyngor yn gweithredu, yn enwedig mewn achosion o niwsans, aflonyddu neu erledigaeth.

CYFRIFOLDEBAU'R TENANT

- 6.1 Y 'Tenant' sy'n gyfrifol am ymddygiad pawb (gan gynnwys plant) sy'n byw yn, neu'n ymweld â'r, cartref. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys pan fo'r bobl hyn yn eiddo neu yng ngardd y 'Tenant', ac yn y cylch o gwmpas eiddo'r 'Tenant'. Mae hefyd yn cynnwys pan fyddant ar dir a strydoedd oddi amgylch, neu mewn ardaloedd cymunedol (grisiau, pennau grisiau, cynteddau, gerddi ar y cyd neu leiniau parcio).
- 6.2 Rhaid i'r 'Tenant', aelodau'r cartref neu ymwelwyr beidio â pheri niwsans, annifyrrwch neu aflonyddwch i unrhyw un arall.

Mae enghreifftiau o niwsans, annifyrrwch neu aflonyddwch yn cynnwys:

- Cerddoriaeth, teledu neu radio uchel y mae modd eu clywed tu allan i gwrtil yr eiddo.
- Defnyddio peiriannau swnllyd rhwng 9.00 p.m. ac 8.00 a.m.
- Dadlau a chlepiant drysau
- Meddwdod annymunol
- Gwerthu cyffuriau anghyfreithlon
- Rhwystro ardaloedd cymunedol
- Taflu unrhyw beth o ffenestri neu falconiau fflatiau.
- Cŵn yn cyfarth a baeddu

NID YW'R RHESTR UCHOD YN CYNNWYS POPETH.

6.3 Rhaid i'r 'Tenant', aelodau'r cartref neu ymwelwyr beidio â gadael sbwriel neu eitemau yng nghyffiniau'r eiddo. Ni ddylid rhoi gwastraff cartref ar y stryd heblaw ar ddiwrnod y casgliad neu, os yw'r gwastraff yn cael ei gasglu'n yn gynnar yn y bore, y noswaith gynt. Dim ond eitemau sy'n cael eu casglu gan y Cyngor fel rhan o'r casgliad gwastraff arferol ddylid eu doddi allan i'w casglu a dylai'r rhain fod yn y bagiau neu gynwysyddion priodol.

6.4 Rhaid i'r 'Tenant', aelodau'r cartref neu ymwelwyr beidio â pheri na bygwth unrhyw fath o aflonyddwch ar na thrais yn erbyn unrhyw un arall. Mae hyn yn cynnwys aflonyddu ar sail hil, lliw, crefydd, anabled neu ogwydd rhywiol. Mae'r Cyngor yn ystyried bygythion o drais neu gam-drin llafar yn ddifrifol iawn a bydd ymddygiad o'r fath yn peri bod y Cyngor yn dwyn achos dadfeddiant yn erbyn y 'Tenant'.

Mae enghreifftiau o aflonyddu'n cynnwys:

- defnyddio neu fygwth defnyddio trais,
- geiriau neu ymddygiad amharchus neu sarhaus,
- bygwth,
- difrodi neu fygwth difrodi cartref neu feddiannau rhywun arall,
- ysgrifennu graffiti bygythiol, amharchus neu sarhaus,
- gwneud unrhyw beth sy'n ymyrryd ar heddwch, cysur neu gyfleuster pobl eraill, neu beri tramgwydd iddynt
- ymddygiad neu iaith hiliol.

NID YW'R RHESTR UCHOD YN CYNNWYS POPETH.

6.5 Rhaid i'r 'Tenant', aelodau'r cartref neu ymwelwyr beidio â gwneud cwynion ffug neu faleisus ynghylch ymddygiad unrhyw un arall.

6.6 Rhaid i'r 'Tenant' beidio â defnyddio'r eiddo, na chaniatáu ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw weithgaredd anghyfreithlon, troseddol neu anfoesol (gan gynnwys unrhyw ardal gymunedol gerllaw'r eiddo).

Enghreifftiau o'r math hwn o weithgaredd yw:

- Dod â, cadw, cynhyrchu neu werthu cyffuriau,
- cadw, dosbarthu neu gynhyrchu deunydd hiliol,
- dosbarthu neu gynhyrchu pornograffi anghyfreithlon,
- cadw, defnyddio neu werthu nwyddau wedi'i dwyn,
- puteindra,
- troseddau rhyw.

NID YW'R RHESTR UCHOD YN CYNNWYS POPETH.

- 6.7 Rhaid i'r 'Tenant' beidio ag achosi trais corfforol, bygwth trais na defnyddio camdriniaeth feddyliol, emosiynol neu rywiol yn erbyn eu partner, cynbartner neu aelod arall o'r teulu neu gartref, neu fygwth gwneud hynny.
- 6.8 Rhaid i'r 'Tenant', aelodau'r cartref neu ymwelwyr beidio â niweidio, anharddu na rhoi graffiti ar eiddo'r Cyngor. Rhaid i'r 'Tenant' dalu am unrhyw waith trwsio neu gyfnewid o ganlyniad i achosion o'r fath, a gall wynebu achos dadfeddiant.
- 6.9 Rhaid i'r 'Tenant', aelodau'r cartref neu ymwelwyr beidio ag ymyrryd ag offer sicrhau neu ddiogelu mewn blociau cymunedol, neu systemau agor drws.
- 6.10 Rhaid i'r 'Tenant' beidio â chaniatáu rhedeg busnes o'r eiddo heb ganiatâd ysgrifenedig y Cyngor. Ni fydd y Cyngor fel arfer yn gwrthod caniatâd oni bai ei fod yn ystyried y byddai'r busnes yn peri niwsans neu y gallai ddifrodi'r eiddo.

TRAIS TUAG AT STAFF Y CYNGOR

- 6.11 Rhaid i'r 'Tenant', aelodau'r cartref neu ymwelwyr beidio â cham-drin, bygwth neu ymosod ar unrhyw un o weithwyr y Cyngor neu gontractwr y Cyngor, naill ai'n gorfforol neu ar lafar. Mae hyn yn cynnwys gweithredoedd sy'n digwydd yn swyddfeydd y Cyngor neu yng nghyffiniau cartref y 'Tenant'. Mae'r Cyngor yn ystyried bygythion trais neu gam-drin llafar tuag at ei staff yn ddifrifol iawn a bydd ymddygiad o'r fath yn peri bod y Cyngor yn dwyn achos dadfeddiant yn erbyn y 'Tenant'.

7. ANIFEILIAID ANWES

- 7.1 Gall y 'Tenant' gadw hyd at ddau anifail anwes domestig (anifail anwes domestig yw ci, cath neu anifeiliaid neu adar bach mewn cawell) yn yr eiddo heb ganiatâd ysgrifenedig y Cyngor. Mae gofyn cael caniatâd ysgrifenedig y Cyngor i gadw unrhyw anifeiliaid eraill. Ni fydd caniatâd yn cael ei roi i gadw anifeiliaid a restrwyd dan Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976.
- 7.2 Rhaid peidio â gadael i unrhyw anifail sy'n cael ei gadw neu ei adael yn yr eiddo gan y 'Tenant', aelodau'r cartref neu ymwelwyr beri niwsans i gymdogion neu drigolion eraill, trwy achosi sŵn neu berygl gormodol i bobl neu anifeiliaid eraill. Rhaid peidio â chadw anifeiliaid yn eiddo'r Cyngor dan amgylchiadau aflan, a dylid gwaredu unrhyw wastraff anifeiliaid yn brydlon.
- 7.3 Rhaid peidio â gadael i unrhyw anifail sy'n cael ei gadw neu ei adael yn yr eiddo gan y 'Tenant', aelodau'r cartref neu ymwelwyr faeddu yn yr eiddo neu ar ardaloedd cymunedol, ffyrdd, llwybrau troed neu fannau chwarae yng nghyffiniau'r eiddo.
- 7.4 Ni ddylid gadael i gŵn grwydro heb oruchwyliaeth briodol mewn ardaloedd cymunedol, ar ffyrdd, llwybrau troed neu fannau chwarae yng nghyffiniau'r eiddo, a rhaid peidio â'u clymu na gadael iddynt faeddu yn y manau hyn.

8. GWASANAETHAU CEFNOGI POBL A THAI GWARCHOD

** Mae'r adran hon yn berthnasol i Denantiaid sy'n derbyn y gwasanaethau hyn yn unig.*

GWASANAETHAU CEFNOGI POBL

- 8.1 Gall rhai tenantiaid dderbyn gwasanaethau ychwanegol cefnogi tenantiaeth, trwy 'Cefnogi Pobl'. Ar gyfer y tenantiaid bydd atodlen i'r cytundeb tenantiaeth. Gall y gwasanaethau hyn newid.
- 8.2 Nid yw'r tenantiaid hynny sy'n cael eu hasesu fel angen Gwasanaethau Cefnogi Pobl yn gorfod derbyn y gwasanaethau hynny. Fodd bynnag, os bydd 'Tenant' yn torri unrhyw un o gymalau'r cytundeb hwn, o ganlyniad i ddiffyg cefnogaeth, gall y Cyngor ddwyn achos i adennill y denantiaeth.

GWASANAETHAU TAI GWARCHOD

Mae'r adran hon yn berthnasol yn unig i denantiaid sy'n derbyn y gwasanaethau hyn, naill ai yn un o'r tai gwarchod penodedig sy'n cael eu darparu gan Gyngor Sir Penfro neu lle mae Gwasanaeth Warden Cylchynol yn gweithredu.

Yn ogystal â chymalau eraill y cytundeb hwn, mae 'Tenant' tŷ gwarchod yn cytuno i'r canlynol:

- 8.3 Talu'r costau a thaliadau cysylltiedig â darparu'r gwasanaeth warden, a system larwm cymunedol yn ogystal â'r rhent wythnosol, heb ystyried a yw'r 'Tenant' yn defnyddio'r cyfleusterau hyn neu beidio.
- 8.4 Hysbysu'r Warden Tai Gwarchod o unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau yn y cartref sy'n berthnasol i waith ategol y Warden.
- 8.5 Caniatáu mynediad rhesymol Warden y Tai Gwarchod i'r eiddo.
- 8.6 Defnyddio unrhyw gyfleusterau cymunedol sy'n gysylltiedig â'r eiddo mewn ffordd resymol ac ystyriol.
- 8.7 Bod yn gyfrifol am ymddygiad unrhyw westeion a wahoddwyd i ystafelloedd gwesteion.